*This document is available in English* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **21 Medi 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Gareth Owens, Swyddog Monitro** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens** |
| Pwnc | **Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol Atodol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad yw rhoi cadarnhad i'r Aelodau o'r ymateb a roddwyd i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn) mewn perthynas â'r adroddiad atodol drafft ar gydnabyddiaeth ariannol.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi adroddiad atodol ar gydnabyddiaeth ariannol (Dolen yma) sy'n nodi'r cynigion ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub yn sgil y newidiadau arfaethedig i'r trefniadau llywodraethiant o fis Mai 2027 ymlaen.

3 Trafodwyd y mater yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 20 Gorffennaf 2026, a phenderfynwyd y byddai'r Swyddog Monitro yn cyflwyno ymateb i'r cynigion, ar ôl ymgynghori â Chadeirydd yr Awdurdod, y Prif Swyddog Tân a'r swyddog Adran 151.

4 Dosbarthwyd yr ymateb sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn i Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub ar 21 Awst 2026.

**ARGYMHELLION**

5 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

**i) Nodi'r ymateb a roddwyd**

**Crynodeb o'r Cynigion**

6 Bydd y model Llywodraethiant ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yn newid ar ôl mis Mai 2027 i gynnwys 1 aelod cabinet o bob awdurdod cyfansoddol ynghyd â 50% o aelodau cyfetholedig h.y. 6 cynghorydd a 3 aelod cyfetholedig ar gyfer Gogledd Cymru.

7 Felly, mae angen newid y model cydnabyddiaeth ariannol er mwyn adlewyrchu'r rhagdybiaeth y bydd ychwaneg o gyfrifoldebau. Mae amrywiadau mawr o ran graddfa a chymhlethdod strwythurau llywodraethiant y tri ATA yng Nghymru, felly mae'r Comisiwn yn cynnig cyfradd ddyddiol ar gyfer aelodau a fyddai'n caniatáu i'r gydnabyddiaeth ariannol adlewyrchu'r amser sy'n cael ei dreulio ar ddyletswyddau ATA mewn gwirionedd.

8 Wrth osod y gyfradd, edrychodd y Comisiwn ar Awdurdodau eraill yn y DU, ond gwelwyd eu bod nhw'n wahanol iawn. Mae Awdurdod Tân ac Achub Lloegr yn seiliedig ar ardaloedd sirol neu ranbarthol, tra bod gan yr Alban a Gogledd Iwerddon un awdurdod yr un.

9 Mae CLILC wedi drafftio disgrifiadau rôl ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub newydd, ac mae tebygrwydd rhyngddynt â model yr Alban, gan gynnwys cyfrifoldeb am:

a. arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol.
b. llywodraethiant, sicrwydd a chraffu.
c. stiwardiaeth ariannol.
d. cydraddoldeb, cynhwysiant, a safonau moesegol.
e. atebolrwydd cyhoeddus ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid; ac
f. ymrwymiad i hyfforddiant a datblygu.

10 Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio model i bennu maint a chymhlethdod cyrff cyhoeddus, ac mae'r Awdurdodau newydd ar Fand 3 y raddfa honno. Dyma'r cyfraddau cyflog a gynigir:

| | **Cyfradd ddyddiol** | **Cyfradd hyd at 4 awr** | **Cyfradd fesul awr** |
|---|---|---|---|
| **Cadeirydd** | £348 | £174 | £43.50 |
| **Cadeirydd Pwyllgor neu Ddirprwy** | £322 | £161 | £40.25 |
| **Aelod o'r Bwrdd** | £292 | £146 | £36.50 |

11 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, ac mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ganfyddiadau'r archwiliad. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

**Ymateb a gyflwynwyd**

12 Mae'r egwyddor o roi cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol i aelodau'r cabinet uwchlaw'r hyn a roddir am eu swydd yn y cabinet yn ymddangos yn briodol oherwydd bod dyletswyddau ATA yn wahanol iawn i ddyletswyddau aelod cabinet yn y cynghorau cyfansoddiadol.

13 Er bod y tâl ychwanegol yn cael ei ystyried yn angenrheidiol, gweler y sylwadau isod ynghylch risgiau posibl o ran sut y gallai eraill weld hyn.

14 Mae cael cydraddoldeb rhwng cynghorwyr etholedig a phenodiadau cyfetholedig o ran cydnabyddiaeth ariannol yn rhesymegol a dylid ei groesawu.

15 Er mwyn talu ar sail yr amser a dreulir, rhaid cael llawer o waith papur, ac mewn gwirionedd mae'n anodd iawn cyflwyno her ystyrlon y tu hwnt i wiriadau sylfaenol, megis "a gynhaliwyd y cyfarfod ar y diwrnod a hawliwyd mewn gwirionedd?"

16 Gallai treuliau hawliadwy arwain at daliadau gwahaniaethol i wahanol aelodau'r Awdurdodau, yn seiliedig ar wahaniaethau yn yr amser a dreulia pob aelod yn paratoi ar gyfer cyfarfod.

17 Gall parodrwydd (neu amharodrwydd) pobl i hawlio hefyd effeithio ar y gydnabyddiaeth ariannol y maen nhw'n ei gael. Er bod elfen wirfoddol yn perthyn i faint o gydnabyddiaeth sy'n cael ei hawlio, mae risg y bydd aelodau dan bwysau i beidio â hawlio eu holl gyfran. Gwn eich bod yn deall y pwysau sydd weithiau'n afresymol a allai fod ar aelodau yn hyn o beth o bryd i'w gilydd, a'r risg bod hyn yn gwneud gwasanaeth cyhoeddus yn llai deniadol.

18 Gellir mabwysiadu confensiynau neu baramedrau, megis tybiaeth y bydd yr amser sy'n cael ei dreulio yn paratoi ar gyfer cyfarfod yn hafal i hyd y cyfarfod, er bod hwn yn fodel eithaf bras.

19 Mae profiad o'r fethodoleg cyfradd ddyddiol yn awgrymu y gellir ymestyn cyfarfodydd yn artiffisial er mwyn sicrhau'r gyfradd uwch.

20 Heb unrhyw baramedrau eraill, e.e terfyn uchaf ar nifer y diwrnodau y gellir eu hawlio, mae cyfraddau dyddiol hefyd yn ei gwneud yn anodd i wneud cynlluniau ariannol/rhagweld cyllideb. Am y rheswm hwnnw, mae'r ATA yn mynegi ffafriaeth gref iawn tuag at lwfans blynyddol yn hytrach na chyfradd fesul diwrnod.

21 Disgwylir i rolau'r cabinet mewn cynghorau cyfansoddiadol fod yn rhai llawn amser. Mae taliad ychwanegol ar gyfer dyletswyddau yn codi cwestiwn ynghylch y graddau y mae'r dyletswyddau hynny yn rhai llawn amser mewn gwirionedd, ac a oes risg y gallai'r taliadau ATA ymddangos fel eu bod yn cael eu talu ddwywaith.

22 Er y byddai'n ddealladwy i ddefnyddio model Llywodraeth Cymru i gyfrifo lefelau tâl priodol, nid yw'r model/cyfraddau tâl wedi'u diweddaru ers rhai blynyddoedd, a bydd y Comisiwn yn ymwybodol o'r pryder a ddaw o'i ddefnydd gan rai aelodau cyfetholedig ar hyn o bryd.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae Llywodraethiant yr Awdurdod Tân ac Achub yn hanfodol i osod a chyflawni amcanion llesiant hirdymor. |
| Cyllideb | Bydd y model terfynol yn cael ei gyllidebu'n llawn. |
| Cyfreithiol | Sicrhau cydymffurfiaeth â'r trefniadau llywodraethu diweddaraf ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. |
| Staffio | Cefnogi recriwtio a chadw aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub gyda'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Dim problemau wedi'u nodi. |
| Risgiau | Mae eglurder trefniadau cydnabyddiaeth ariannol yn sicrhau bod taliadau'n briodol ac yn unol ag egwyddorion y cytunwyd arnynt. |